

## **Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy**

### **Gwahodd datganiadau diddordeb i ddod yn aelod o'r Fforwm**

Mae Cyngor Sir Fynwy yn recriwtio aelodau newydd o'r Fforwm Mynediad Lleol statudol, fel sydd ei angen dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Bydd y Fforwm yn cynnwys rhwng 12 a 22 aelod. Bydd aelodaeth am gyfnod o 3 blynedd.

Swyddogaeth y Fforwm, a fu mewn bodolaeth ers 2003, yw cynghori'r awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill, am wella mynediad y cyhoedd i dir yn yr ardal ar gyfer dibenion hamdden awyr agored a mwynhad yr ardal, ac i gynghori a chynorthwyo gyda gweithredu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

Gwirfoddolwyr yw aelodau'r Fforwm ac maent yn cynnwys amrywiaeth o bobl o'r gymuned leol, yn cynnwys tiffeddiannwyr a rheolwyr tir, defnyddwyr mynediad a'r rhai sy'n cynrychioli buddiannau eraill, megis iechyd a chadwraeth.

Mae'r Fforwm yn cwrdd bob chwarter. Mae'n bwysig y gall aelodau fynychu pob cyfarfod, gan na ellir caniatâu dirprwyon. Swyddi di-dâl ydynt ond gall aelodau'r Fforwm hawlio treuliau rhesymol.

Caiff aelodau eu penodi ar sail bersonol, yn dibynnu ar eu gwybodaeth bersonol, sgiliau neu brofiad o fynediad i gefn gwlad, yn cynnwys diddordebau defnyddwyr a pherchnogion/defnyddwyr. Gall unrhyw berson sy'n dymuno cael ei ystyried ar gyfer aelodaeth gael manylion pellach gan:

Ysgrifennydd Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy,  
Adran Cefn Gwlad,  
Blwch SP 106,  
Cil-y-coed,  
Sir Fynwy NP26 9AN

Ffôn: 01633 644850

e-bost: [countryside@monmouthshire.gov.uk](mailto:countryside@monmouthshire.gov.uk) neu gellir lawrlwytho mwy o wybodaeth a ffurflenni cais o [www.monmouthshire.gov.uk/cy/cefn-gwlad/37843-2](http://www.monmouthshire.gov.uk/cy/cefn-gwlad/37843-2)

Dylid dychwelyd ffurflenni wedi eu llenwi erbyn 18 Medi 2019.

## CANLLAWIAU AR GYFER DARPAR DDEFNYDDWYR

### Cefndir

Mae Cyngor Sir Fynwy yn recriwtio pobl addas i ddod yn aelodau newydd o'r Fforwm Mynediad Lleol statudol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Deddf CROW).

Swyddogaeth y Fforwm yw cynghori'r awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrrff eraill sy'n gweithredu swyddogaethau dan Rhan 1 Deddf CROW, am wella mynediad y cyhoedd i dir yn yr ardal ar gyfer dibenion hamdden awyr agored a mwynhau'r ardal. Mae'n ofyniad cyfreithiol fod y cyrrff hyn yn rhoi ystyriaeth i gyngor perthnasol a roddir gan y Fforwm.

Mae rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Fforwm gwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd cyfarfodydd yn gyffredinol yn cael eu cynnal yn chwarterol.

### Meysydd Gwaith

Bydd y Fforwm yn rhoi cyngor ar agweddau o fynediad cyhoeddus yn yr ardal, yn cynnwys hawliau tramwy cyhoeddus a hawl mynediad i dir agored a thir comin cofrestredig. Bydd y Fforwm yn ystyried pob math o fynediad, yn cynnwys marchogaeth, seiclo a gyrru oddi ar y ffordd, ac nid dim ond mynediad ar droed. Y Fforwm ei hunan fydd yn penderfynu ar union natur y gwaith hwn, mewn cytundeb gyda'r awdurdod lleol.

Fodd bynnag, yn y tair blynedd ddiwethaf mae gwaith y Fforwm wedi cynnwys:

- Rhoi sylwadau ar wahanol ymgynghoriadau statudol neu ymgynghoriadau eraill;
- Ystyried gwelliannau i hawliau tramwy yn yr ardal; a
- Cynorthwyo gyda gweithredu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

Mae rhai materion y mae'n rhaid i Fforwm Mynediad Lleol ymgynghori'n statudol arnynt. Mae hyn yn cynnwys:

- Paratoi a drafftio mapiau o wlad agored a thir comin cofrestredig;
- Penodi wardeiniaid yng nghyswllt tir mynediad;
- Gwneud is-gyfreithiau yn ymwneud â thir mynediad;
- Paratoi neu adolygu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy; a
- Ceisiadau ar gyfer eithriadau hirdymor neu gyfyngiadau ar fynediad i dir mynediad.

Mae copïau o agendâu a chofnodion y Fforwm ar gael yn [www.monmouthshire.gov.uk](http://www.monmouthshire.gov.uk) (dan gyfarfodydd, agendâu, cofnodion)

## Rolau a Chyfrifoldebau

Rolau a chyfrifoldebau Aelodau Fforwm Mynediad Lleol: -

- Cynrychioli defnyddwir tir mynediad neu hawliau tramwy, perchnogion neu ddefnyddwyr tir, a diddordebau cysylltiedig eraill yn arbennig o berthnasol i Sir Fynwy.
- Rhoi barn annibynnol yn hytrach nag adlewyrchu barn unrhyw sefydliad(au) neilltuol.
- Yn benodol cynghori a chynorthwyo wrth ddatblygu, adolygu a gweithredu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a strategaeth mynediad cefn gwlad yn fwy cyffredinol.
- Bod yn barod i ddilyn cyfleoedd i roi cyhoeddusrwydd i waith y Fforwm, yn cynnwys cynrychioli'r Fforwm mewn digwyddiadau cyhoeddus/ cyfarfodydd a chydlynu gyda sefydliadau cenedlaethol a lleol perthnasol.
- Bod yn fodlon i fod yn ddolen a sianel cyfathrebu rhwng y Fforwm a sefydliadau cenedlaethol lleol eraill perthnasol, partneriaethau a grwpiau diddordeb.
- Disgwylir i chi fynychu cynifer o gyfarfodydd ag sydd modd ond mae'n rhaid mynychu o leiaf un cyfarfod y flwyddyn, fel arall gall aelodaeth ddod i ben. (Ni chaniateir dirprwyon heblaw fel sylwedyddion ar ddisgresiwn y Cadeirydd).
- Bod yn barod i wasanaethu ar y fforwm am 3 blynedd o'r cyfarfod cyntaf.

Bydd Cyngor Sir Fynwy yn:-

- Rhoi lleoliad ar gyfer cyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol.
- Rhoi ysgrifenyddiaeth a chefnogaeth a chyngor parhaus i'r fforwm.
- Ad-dalu aelodau Fforwm am dreuliau rhesymol a geir drwy aelodaeth uniongyrchol y Fforwm. Gall hyn gynnwys gofal plant neu gostau ar gyfer dibynyddion sy'n ganlyniad mynychu cyfarfodydd.
- Cyfleu'r cyngor a roddir gan y Fforwm i'r pwyllgor/aelodau cabinet perthnasol yr awdurdod ar adegau priodol.
- Hyrwyddo gwaith y Fforwm yn cynnwys paratoi adroddiad blynyddol ar weithgareddau'r Fforwm.

## Meini Prawf Dethol

Mae'r dilynol yn rhestr o feini prawf y caiff ceisiadau eu barnu arnynt. Fodd bynnag, ni fydd yn rhaid i ymgeiswyr o reidrwydd gydymffurfio gyda'r holl feini prawf i fod yn llwyddiannus.

Mae'n hanfodol bod aelodau'r Fforwm yn:

- ymroddedig i swyddogaeth y Fforwm i gynghori'r awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill am wella mynediad y cyhoedd i dir yn yr ardal ar gyfer dibenion hamdden awyr agored a mwynhad o'r ardal;
- barod ac yn medru chwarae rhan lawn ym mhob agwedd o waith y Fforwm - efallai nad yw pobl sydd yn barod i gynrychioli diddordeb penodol cudd yn unig fod yn aelodau addas.

Mae'n ddymunol bod aelodau'r Fforwm:

- ag ystod eang o brofiad o faterion mynediad yn yr ardal;
- â phrofiad o weithio ar, a chyfrannu at, fforymau neu weithgorau tebyg yn yr ardal;
- byw yn, bod yn arbennig o gyfarwydd gyda, neu â diddordebau eraill, yn arbennig o berthnasol i ardal y Fforwm;
- yn gallu rhwydweithio gydag ystod eang o sefydliadau ac unigolion, gyda'r nod o gynghori ar eu sylwadau a lledaenu gwaith y Fforwm.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng a)

diddordebau defnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus a hawl mynediad i dir agored a b) perchnogion a defnyddwyr tir mynediad neu dir y mae hawliau tramwy arno.

Mae'n rhaid i'r Cyngor Sir roi ystyriaeth i'r angen i sicrhau, cyn belled ag sy'n ymarferol, gydbwysedd teg rhwng pobl o wahanol ryw, hil, oedran, anabledau a nodweddion eraill.

Mae'n rhaid i'r Cyngor Sir benodi aelodaeth sydd ag ehangder o wybodaeth a diddordebau ac mae gan yr holl aelodau ymrwymiad i swyddogaeth cadarnhaol o'r Fforwm.

Swyddi di-dâl ydynt ond gall aelodau'r Fforwm hawlio treuliau rhesymol yn cynnwys costau gofal ar gyfer plant a dibynyddion oedrannus neu anabl.

Os dymunwch gael eich ystyried ar gyfer aelodaeth, llenwch y ffurflen gais amgaeedig a'i dychwelyd erbyn **18 Medi 2019** at:

Matthew Lewis  
Ysgrifennydd Fforwm Mynediad Lleol  
Sir Fynwy  
Adran Cefn Gwlad  
Blwch SP 106  
Cil-y-coed  
Sir Fynwy NP26 9AN

Neu drwy e-bost at:

[countryside@monmouthshire.gov.uk](mailto:countryside@monmouthshire.gov.uk)

Os oes angen efallai y cewch i gyfweliad gan banel o gynghorwyr.

Gwneir y detholiad terfynol gan yr awdurdod penodi (Cyngor Sir Fynwy).

